**CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo, ar ddydd Mercher 18fed Tachwedd 2020 gan gychwyn am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs E. M. Chard (Maer)

Y Cynghorwyr J. Ball, Mrs J. Butterfield YH MBE, A. R. James, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, T. Thomas, R. Turner a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**16. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr B. Blakeley ac A. J. Rutherford.

**17. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor a'i bwyllgorau i'w cyemradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 21ain Hydref 2020 - Rhifau Cofnod 1-15

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King ac fe ***BENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cynllunio - 21ain Hydref 2020 - Rhfiau Cofnod 1-3

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac fe ***BENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r penderfyniadau.*

Pwyllgor Cynllunio - 4ydd Tachwedd 2020 - Rhifau Cofnod 4-7

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King ac fe ***BENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r penderfyniadau.*

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 4ydd Tachwedd 2020 - Rhifau Cofnod 1-6

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams ac fe ***BENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.*

**18. ADRODDIAD Y MAER**

Cyfeiriodd y Maer at ei hadroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn rhoi manylion y digwyddiadau a fynychodd yn ddiweddar, er gwybodaeth i'r aelodau. Cyfeiriodd y Maer at fynychu i dalu teyrnged, gyda phellter cymdeithasol, y tu allan i gartref Mrs Tony Mellor, gwraig y Cynghorydd Barry Mellor, ar brynhawn ei hangladd, ac ail-agor yr Undeb Credyd Cambrian a adleolwyd ar y stryd fawr.

## 19. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau an-rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'r rhestr o gyflwynwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'i lofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.*

*Taliadau Atodlen B i'w cymeradwyo (Hydref - Tachwedd 2020)*

| Cyuflenwr | Manylion Cyflenwi | Rhif taleb | Swm £ |
|---|---|---|---|
| Cymdeithas Gogledd a Chanolbarth Cymru | Tanysgrifiad blynyddol 2020/21 | 1063 | 90.00 |
| Pottles Premier Plants Ltd | Planhigion y gaeaf | 1064 | 1,570.56 |
| Rhyl BID | Lefi Bid 01/04.20 - 01/03/21 | 1065 | 251.64 |
| Rhyl BID | Lefi Bid 01/04/20 - 01/03/21 | 1066 | 23.29 |
| Canda Copying | Rhentu a chopïau du a gwyn | 1067 | 280.27 |
| Canda Copying | Copïau lliw | 1068 | 36.22 |
| Band Arian y Rhyl | Cyfraniad ar gyfer gwasanaethau a ddarparwyr ar Sul y Coffa | 1069 | 50.00 |
| GoToMyPC | 4 tanysgrifiad blynyddol gan gynnwys TAW a ffioedd trafodaethau ariannol di-sterling | 1070 | 1,509.43 |
| **Cyfanswm Atodlen B** | | | **£3,811.43** |

## 20. DATGANIAD BLYNYDDOL 2019/2020 – CWBLHAU ARCHWILIAD

Adroddodd Clerc y Dref nad oedd eto wedi derbyn adroddiad yr archwiliwr allanol ac felly nid oedd y Cyngor Tref mewn sefyllfa i gymeradwyo'r Datganiad Blynyddol.

Ychwanegodd Clerc y Dref bod hyn oherwydd bod gwaith wedi cronni yn ystod cyfnodau clo eleni gan fod yr holl ddogfennau wedi eu cyflwyno ar yr un pryd, ac nad oedd yn achosi pryder gwirioneddol.

***PENDERFYNWYD*** *cyflwyno'r adroddiad i gyfarfod mis Rhagfyr y Cyngor i'r aelodau ei gymeradwyo os bydd yn cyrraedd yn yr ychydig wythnosau nesaf.*

## 21. DATGANIADAU ARIANNOL 2019/20

Esboniodd Clerc y Dref bod y datganiadau ariannol yn gysylltiedig gyda'r Datganiad Blynyddol ac felly, unwaith eto, ni ellid eu cymeradwyo gan yr aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *cyflwyno'r datganiadau i gyfarfod mis Rhagfyr y cyngor i'r aelodau eu cymeradwyo.*

**22. ENWEBIAD CYNGOR TREF A CHYMUNED I'R BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS**

Adroddodd Clerc y Dref bod Cynghorydd Cyngor Tref Prestatyn, y Cynghorydd Gareth Sandilands wedi ei enwebu'n llwyddiannus i'r wbrdd, ar ôl derbyn 3 enwebiad.

At hyn, roedd naw cynghorydd tref wedi ebostio yn cynnig eu cefnogaeth i'r enwebiad.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr wybodaeth.*

**23. EITEM GAN AELOD: GWELLIANNAU I GERDDWYR YNG NGHANOL Y DREF**

Cyfeiriodd y Cynghorydd K. R. Jones at Gyngor Sir Ddinbych yn ehangu'r palmant yng nghanol y dref er mwyn galluogi i bobl gadw pellter cymdeithasol yn effeithiol, ar ôl derbyn grant gan Lywodraeth Cymru.

Dywedodd y Cynghorydd Jones, er ei fod yn ddeall yr amcan, bod tipyn o gwyno wedi bod ar y cyfryngau cymdeithasol yn erbyn y gwaith gan eu bod wedi ymddangos heb roddi unrhyw rybudd ymlaen llaw i unrhyw un gan gynnwys y Cyngor Tref.

Hefyd, nid oedd y bolardau a godwyd yn adlewyrchu ac yn golygu bod symud drwy'r gwaith yn anodd. Serch hynny, nid oedd nawr yn mynd i ganolbwyntio ar y mater hwn, gan ei fod yn credu bod CSDd yn ceisio datrys y problemau a godwyd, ac mewn unrhyw achos, roedd y cwynion wedi eu disodli gan un arall mewn perthynas â thocynnau parcio a gyflwynwyd yng nghanol y dref.

Daeth y Cyngohrydd Jones â nifer o broblemau TG Cyngor Sir Ddinbych i sylw'r aelodau, a oedd yn achosi llawer o ddryswch a rhwystredigaeth i rai a oedd eisiau dod i'r Rhyl a defnyddio'r meysydd parcio, fel a ganlyn:

- Ar eu gwefan nid yw'r maes parcio newydd ar Water Street wedi ei restru ac mae'r maes parcio ar West Kinmel Street hefyd wedi ei adael allan.

- Pan gliciodd ar ddolen maes parcio Queen Street aethpwyd ag ef i wefan llawn gwybodaeth yn rhoi'r holl fanylion roedd eu hangen, ond wrth glicio ar y ddolen a ddarparwyd i fynd ag o i fap Google, canfu nad oedd CSDd wedi ei enwi ar y map felly nid oedd yn glir lle'r ydoedd.

- Wrth edrych ar y map, canfu bod meysydd parcio eraill heb eu 'henwi' yn iawn, ac roedd pwyntiau eraill o ddiddordeb, megis pwyntiau gwefru newydd, yn gamarweiniol gan nad oedd y pwyntiau gwefru wedi eu gosod eto.

- Nid oedd y ddwy awr o barcio am ddim ar faes parcio Water Street yn cael cyhoeddusrwydd mewn unrhyw le ar y wefan.

- Nid oedd cyhoeddusrwydd chwaith i'r mannau parcio awr am ddim ar feysydd parcio West Kinmel Street a Morley Road.

- Yn 2006 lansiodd Llywodraeth Cymru y 'Cynllun Teithio Llesol' gyda dyhead ar y cyd â CSDd i gael mwy ohonom i gerdded a beicio. Mae 'Teithio Llesol' yn golygu teithio gyda phwrpas megis mynd i'r gwaith, siopa, mynd i'r ysgol/coleg yn hytrach na mynd â'r ci am dro. O'i ddarlleniad ef o'r cynllun ar wefan CSDd, nid oedd yn argyhoeddiedig bod CSDd yn deall hynny?

- Wrth edrych ar y fenter 'Cynllun Teithio Llesol' ar wefan Llywodraeth Cymru, mae'n cynnig y cyfle i weld sut mae cynllun teithio eich awdurdod lleol yn dod yn ei flaen, ond pan roddodd 'CSDd' yn y blwch, gan fynd ag ef i wefan CSDd drwy ddolen, cafodd y canlyniad 'Page Not Found'.

Teimlai'r Cynghorydd Jones nad oedd yr uchod oll yn annog pobl i'r Rhyl, yn enwedig yn y cyfnod yn arwain at y Nadolig.

Mewn mater cysylltiedig, adroddodd cynghorydd bod cynllun parcio 'Am ddim ar ôl 3pm' CSDd wedi ei gyhoeddi y diwrnod hwnw, i redeg rhwng 26ain Tachwedd hyd at 31ain Rhagfyr 2020, a'u bod hefyd wedi cyhoeddi parcio am ddim am ddwy awr ym maes parcio Neuadd y Dref.

Dywedodd Cyngorydd arall ei fod ef a nifer o yrwyr eraill yn ddiweddar yn sefyll wrth y man talu ym maes parcio Water Street yn ceisio gweithio allan o oedd angen talu ai peidio. Mae'r arwydd yn aneglur ac mae'r print yn rhy fychan.

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn trefnu cyfarfod gyda Mike Jones CSDd, y Cynghorwyr Mrs E. M. Chard a K. R. Jones ac yntau i'w hysbysu o'r holl faterion a godwyd a cheisio cael eu trin cyn gynted ag y bo modd.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *bod Clerc y Dref yn symud ymlaen gyda phum diwrnod parcio am ddim y Rhhyl ar 20fed, 21ain, 22ain, 23ain a 24ain Rhagfyr gyda'r Cynghorwyr Mrs E. M. Chard, A. R. James, K. R. Jones a Ms V. Roberts yn cynorthwyo gyda rhoi'r arwyddion i fyny yn y meysydd parcio.*

## 24. EITEM GAN AELOD: FFENESTRI NADOLIG 2020

Gofynnodd y Cyngohrydd Mrs W. M. Mullen-James am gefnogaeth yr aelodau i gyflwyno ffurflenni cais i fusnesau canol hy dref.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cynghorwyr Mrs D. L. King, R. Turner a Mrs E. M. Chard yn cynorthwyo'r Cynghorydd Mullen-James.*

## 25. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer: ………………….……..

Dyddiad: ……………………..